

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae pennaeth dros dro Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James yn arwain y gymuned ddysgu yn ysbrydoledig. Mae'n arddel gweledigaeth sy'n darparu amgylchedd sy'n meithrin lles a dysgu disgyblion yn fedrus. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o gydweithio ymysg staff yn werthfawr ac yn eu cefnogi i ddarparu profiadau dysgu buddiol i ddisgyblion. Mae'r gymuned ehangach o fewn yr ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethol, yn rhannu'r un weledigaeth ac yn cyfrannu'n briodol at welliant parhaus. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn gyson, sydd yn ei dro yn arwain at flaenoriaethau a gwelliant buddiol. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn mesur effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol bob tro.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar hyder disgyblion i siarad Cymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol a llai ffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn effeithiol mewn gweithgareddau dysgu perthnasol. At ei gilydd, mae athrawon ar draws yr ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i rannu ac efelychu arferion addysgu effeithiol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn cael profiadau buddiol sy'n eu cefnogi i ddatblygu a chymhwyso eu medrau yn annibynnol mewn gweithgareddau dysgu ysgogol. Er hyn, nid yw'r arferion addysgu effeithiol yn cael eu harddel yn gyson ymhob dosbarth.

Mae'r tîm addysgu yn adnabod anghenion lles a dysgu'r disgyblion yn fedrus. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at feithrin diddordeb disgyblion yn eu dysgu mewn amgylchedd cynhwysol a Chymreig. Mae staff yn darparu cyfleoedd i gefnogi disgyblion i fwynhau'r profiadau dysgu amrywiol a gwneud cynnydd yn eu medrau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol gyda'u dysgu, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cynhaliaeth arbenigol yn y 'Cwtsh' trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Argymhellion

**A1** **Mireinio prosesau hunanwerthuso**

**A2** **Rhannu arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 299 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 213 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 58 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 12.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 24.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/05/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/06/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.